Elin Jones AS, Llywydd
Senedd Cymru
Elin Jones MS, Presiding Officer
Welsh Parliament

Datganiad Ysgrifenedig

Y Cytundeb Cydweithio – Barn gyfreithiol

Yn fy natganiad yr wythnos diwethaf ynghylch y Cytundeb Cydweithio, dywedais mai fy marn gychwynnol, yn seiliedig ar gyngor, oedd nad yw Plaid Cymru yn grŵp sydd â rôl weithredol. Ers hynny, rwyf wedi gofyn am farn gyfreithiol bellach ar y mater gan yr Arglwydd Pannick QC. Heddiw, rwy'n cyhoeddi'r farn honno, sy'n ategu fy marn gychwynnol. Gan hynny, mae fy marn ar y mater hwn yn aros fel ag y mae, a hynny'n derfynol.

https://senedd.wales/media/creddir3/gen-ld14734-e.pdf

Fel y dywedais yr wythnos diwethaf, mae cwestiynau o hyd ynghylch effaith y Cytundeb ar drefniadaeth busnes y Senedd. Ymgynghorais â'r Pwyllgor Busnes y bore yma, a bydd y Pwyllgor yn ailedrych ar y mater ddydd Mawrth nesaf. Rwy'n bwriadu gwneud datganiad pellach yr wythnos nesaf ynghylch newidiadau y byddaf yn eu rhoi ar waith o ddechrau'r tymor ym mis Ionawr. Yn dilyn hyn, cyhoeddir canllawiau ffurfiol ar ystod o faterion yn ôl fy nisgresiwn.

Byddwn yn annog pob Aelod i gyflwyno ei sylwadau ynghylch sut y gallem addasu ein dull o gynnal busnes anllywodraethol wrth inni weld y Cytundeb yn gweithio yn ymarferol.

Elin Jones AS/MS
Llywydd

7 Rhagfyr 2021